

## Canllaw i Gerddwyr Cŵn Mis Mawrth 2018

Yr un **rheol euraidd** yw **PEIDIWCH FYTH** â chaniatáu i unrhyw un o'n cŵn ni ddod i gyswllt ag **UNRHYW** gi arall wrth fynd â chŵn am dro. Mae hyn yn arwain at broblemau. Gallwch osgoi cŵn eraill drwy ofyn i bobl sy'n cerdded tuag atoch roi digon o le i chi, drwy groesi'r ffordd, drwy gadw'r ci ar dennyn byr ar ochr arall eich corff i bwy bynnag sy'n cerdded heibio neu drwy droi i gerdded i'r cyfeiriad arall. Os daw i'r amlwg eich bod wedi caniatáu i gŵn eraill ddod i gyswllt agos â'n cŵn ni, byddwch yn cael eich tynnu oddi ar y gofrestr cerddwyr cŵn. Ni allwn bwysleisio digon pa mor bwysig yw hyn.

**Gall staff wrthod gwirfoddolwyr os canfyddir nad ydynt yn dilyn y canllawiau.**

### Cyffredinol

Cewch gerdded cŵn saith diwrnod yr wythnos rhwng 8am a 4pm.

Ar adegau prysur, efallai y bydd angen i chi aros am gi cyn mynd am dro.

Wrth groesi'r ffordd, cymerwch yr holl ragofalon arferol a sicrhewch eich bod yn sefyll i ffwrdd o'r cwrbyn wrth aros i groesi. Daliwch y ci ar dennyn byr – bydd hyn yn cael ei ddangos i chi yn y sesiwn sefydlu.

Lle bo'n bosibl, dewch â'ch tennyn slip eich hun (nid coler a thennyn arferol). Cofiwch roi gwybod i staff os yw eich cyfeiriad neu rifau ffôn yn newid.

### Cyn mynd am dro

**Cofiwch** fewngofnodi a nodwch eich rhif cerddwr a'ch rhif ffôn ar y ffurflen mewngofnodi/allgofnodi yn y dderbynfa.

**Cofiwch** wisgo eich siaced gwelededd uchel sydd ar gael yn y dderbynfa.

**Cofiwch** fynd â bagiau baw ci gyda chi.

**Cofiwch** roi wybod i staff os oes gennych chi neu'ch cleient anghenion penodol (e.e. cŵn bach/tawel yn unig).

**Cofiwch** gario ffôn symudol i'n ffonio mewn unrhyw argyfwng.

**Peidiwch** â mynd â chi nad ydych yn hyderus ag ef am dro. Gofynnwch i'r staff am gi arall.

**Peidiwch** â gadael i'r ci rydych yn mynd ag ef am dro ddod i gyswllt â chi arall - **Rheol euraidd**

### Wrth fynd am dro

**Cofiwch** ddefnyddio bagiau baw ci os yw'r ci'n gadael baw. Mae'n drosedd peidio â chodi baw ci a gall olygu na fyddwch yn cael mynd â chŵn am dro yn y dyfodol. Rhowch y bag yn y bin ar dop y lôn.

**Cofiwch** gadw rheolaeth o'r ci ar bob adeg.

**Cofiwch** ffonio'r Cartref Cŵn ar 2071 1243 os bydd unrhyw beth yn digwydd wrth fynd am dro.

**Cofiwch** ddychwelyd i'r Cartref Cŵn ar unwaith os ydych yn teimlo, ar ôl gadael, nad yw'r ci'n addas.

**Cofiwch** ddilyn y llwybrau a argymhellir ar y mapiau a ddarperir a chadwch i ffwrdd o gwrbyn y llwybr cerdded wrth aros i groesi'r ffordd. Cadwch y ci ar dennyn byr ar yr adeg hon.

**Cofiwch** groesi ffyrdd prysur ar groesfannau diogel.

**Peidiwch** â rhoi eich wyneb na chaniatáu i unrhyw un arall roi eu hwyneb yn agos at y ci/cŵn dan eich goruchwyliaeth chi.

**Peidiwch** â gadael i'r ci fod oddi ar y tennyn ar unrhyw adeg.

**Peidiwch** â gadael i unrhyw un dan eich goruchwyliaeth ddal y tennyn os nad ydynt yn medru gwneud hynny.

**Peidiwch** â gadael i'r ci fynd yn rhy agos neu ddod i gyswllt â chŵn eraill –  
**Rheol euraidd**

### Yn ôl yn y Cytiau

Arhoswch y tu allan os oes cŵn yn y dderbynfa cyn dychwelyd y ci.

**Cofiwch** roi baw ci yn y bin y tu allan i'r drws os nad ydych eisoes wedi ei daflu.

**Cofiwch** roi gwybod i'r staff os oes unrhyw beth wedi digwydd wrth fynd am dro neu os oes unrhyw faterion corfforol neu ymddygiadol wedi dod i'r amlwg wrth fynd â'r ci am dro.

**Cofiwch** allgofnodi ar y ffurflen yn y dderbynfa. **Cofiwch** ddychwelyd eto!

**Enw: (Llythrennau bras)**

**Llofnod:**

**Dyddiad:**

**Rhif Cerddwr:**